Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

# Ffynonellau Ystadegau Etholaethau

## Medi 2013

## Cyflwyniad

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd cynnydd yn yr ystadegau swyddogol sydd ar gael ar gyfer etholaethau. Mae'r nodyn ymchwil hwn yn darparu lincs i brif ffynonellau'r data am etholaethau a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Ymchwil.

Rydym bob amser yn fodlon helpu Aelodau'r Cynulliad a'u staff i ddadansoddi data o'r ffynonellau hyn, a mapio data etholaethau. Nid yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr, felly os oes gennych ddiddordeb arbennig mewn cael ystadegau etholaethau am bynciau eraill, cysylltwch â ni i drafod pa wybodaeth sydd ar gael.

Caiff ffiniau etholaethau eu hadolygu a'u newid o bryd i'w gilydd, felly nid yw ffiniau etholaethau'r Cynulliad a Senedd y DU bob amser yn cyfateb. Mae mân-newidiadau rhyngddynt ar hyn o bryd, sy'n effeithio ar ryw 900 o etholwyr mewn saith etholaeth[1]. O ganlyniad, dylid egluro'n ofalus pa ffiniau y mae ystadegau'n ymwneud â nhw, yn enwedig wrth gymharu ffiniau gwahanol dros gyfnod o amser. Os oes gennych ddiddordeb mewn cael data am ranbarthau'r Cynulliad, mae peth data ar gael o Gyfrifiad 2011. Gall fod modd cyfuno data am etholaethau o sawl ffynhonnell i gael data am ranbarth, felly cysylltwch â ni i drafod eich gofynion.

[1] Daeth **Gorchymyn Etholaethau Seneddol a Rhanbarthau Etholaethol y Cynulliad (Cymru) (Diwygio) 2011** (Saesneg yn unig) i rym ym mis Rhagfyr 2011. Newidiodd rai o etholaethau a rhanbarthau'r Cynulliad, ond ni chafodd etholaethau seneddol eu newid.

## Ffynonellau ystadegau cyffredinol

Mae data ystadegol ar ystod o bynciau ar gael o'r ffynonellau hyn:

- Mae Cyfrifiad 2011 yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth ystadegol am etholaethau. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi casglu'r ystadegau sydd wedi'u cyhoeddi hyd yn hyn ar ei gwefan NOMIS, yn yr adran **Data Cyfrifiad 2011 ar gyfer Cymru a Lloegr**. Ymhlith y data am etholaethau sydd ar gael mae data ar bynciau fel poblogaeth, iechyd, addysg a sgiliau, tai, yr economi a'r iaith Gymraeg.
- **Neighbourhood Statistics** yw gwefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer data ardaloedd lleol. Unwaith eto, mae'n cwmpasu ystod o feysydd, gan gynnwys poblogaeth, iechyd, addysg a sgiliau, tai, yr economi a'r iaith Gymraeg.

## Poblogaeth a demograffeg

O ran y Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae'r **Amcangyfrifon o Boblogaeth Etholaethau Seneddol** yn cynnwys amcangyfrifon ar ganol blwyddyn o'r boblogaeth fesul oedran a rhyw. Ffigurau canol 2011 yw'r rhai diweddaraf sydd ar gael sy'n seiliedig ar y Cyfrifiad.

Mae Cyfrifiad 2011 yn darparu gwybodaeth fanwl am y boblogaeth a nodweddion demograffeg etholaethau. Ymhlith y setiau data sy'n ymwneud â'r boblogaeth a all fod o ddiddordeb mae **Oedran fesul Blwyddyn Unigol, Dwysedd Poblogaeth, y Math o Aelwyd** a **Pobl rhwng 18 a 64 oed sy'n byw mewn Cartref Un Oedolyn**.

O ran nodweddion demograffeg a chymdeithasol y boblogaeth, mae gan Gyfriad 2011 ddata etholaethau ar **Statws Priodasau a Phartneriaethau Sifil, Teuluoedd sydd â Phlant Dibynnol, Cartrefi ag Unig Riant a Phlant Dibynnol, Grŵp Ethnig, Hunaniaeth Genedlaethol** a **Chrefydd**.

## Busnes, economi a'r farchnad lafur

O ran y Gwasanaeth Ymchwil, mae'r **papurau briffio ar ddiweithdra** yn darparu ystadegau diweithdra diweddaraf y Sefydliad Llafur Rhyngwladol a'r cyfrif o hawlwyr fesul etholaeth. O fis Medi 2013, maent hefyd yn darparu ffigurau diweithdra diweddaraf y Sefydliad ar gyfer pobl rhwng 16 a 24 oed fesul etholaeth (diweithdra ymhlith pobl ifanc).

O ran NOMIS – Ystadegau Swyddogol y Farchnad Lafur, mae **Proffiliau'r Farchnad Lafur fesul Etholaeth** yn crynhoi'r data ar gyflogaeth, diweithdra, anweithgarwch economaidd, enillion a galwedigaethau fesul etholaeth. Mae hefyd yn bosibl cymharu data etholaethau gwahanol ac edrych ar ddata ystadegol dros gyfnod o amser.

O ran y Swyddfa Ystadegau Gwladol, caiff **Ystadegau Rhanbarthol y Farchnad Lafur** eu cyhoeddi bob mis ac maent yn cynnwys ffigurau pennawd ar y farchnad lafur fesul etholaeth.

O ran y Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae gan yr adran **Gweithgarwch, Maint a Lleoliad Busnesau'r DU** y data diweddaraf ar fentrau cofrestredig TAW a TWE fesul diwydiant, maint a throsiant, a hynny yn ôl etholaeth.

## Treth a budd-daliadau nawdd cymdeithasol

Mae Cyllid a Thollau EM yn cyhoeddi data yn ôl etholaeth ar incwm trethadwy a threth incwm a delir, a hynny yn ei gyhoeddiad blynyddol, **Incwm Personol fesul blwyddyn dreth**. Mae hefyd yn cyhoeddi ystadegau fesul etholaeth am **Fudd-daliadau Plant** a **Chredydau Treth**.

Mae **Adnodd Tablu** yr Adran Gwaith a Phensiynau yn darparu ystadegau am ystod o fudd-daliadau nawdd cymdeithasol ar lefel etholaethau. Ymhlith y rhain mae Lwfans Gweini, Budd-daliadau Profedigaeth, Lwfans Gofalwr, Lwfans Byw i'r Anabl, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Budd-dal Analluogrwydd, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith, Credyd Pensiwn, Pensiwn y Wladwriaeth a Lwfans Gwraig Weddw. Gellir gweld y rhan fwyaf o'r ystadegau hyn hefyd drwy wneud **Ymholiad Uwch** ar NOMIS.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd yn cyhoeddi data am Fudd-daliadau Tai drwy ei hadnodd **Stat-Xplore**, ac mae'n rhoi manylion am **Wariant ar Fudd-daliadau yn ôl Etholaethau Seneddol** ddwywaith y flwyddyn i gyd-fynd â Chyllideb y DU a Datganiad yr Hydref. Mae data hefyd ar gael am nifer y bobl a'r cartrefi sy'n cael **Taliad Tanwydd Gaeaf**.

## Iechyd

Er bod y rhan fwyaf o'r ystadegau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi fesul bwrdd iechyd lleol neu awdurdod lleol yn hytrach nag etholaeth, mae'r ystadegau canlynol ar gael:

- Mae data Cyfrifiad 2011 yn darparu data am **Iechyd a Darparu Gofal Di-dâl**, sef a yw pobl wedi nodi bod ganddynt anabledd neu salwch cyfyngus hirdymor, pa mor dda maent yn asesu eu hiechyd, ac a ydynt yn darparu gofal di-dâl.

## Addysg a Sgiliau

O ran Llywodraeth Cymru, mae **Ystadegau Ysgolion yn ôl Etholaethau a Rhanbarthau'r Cynulliad 2012** yn cynnwys ystod o ddata ar bynciau fel disgyblion, athrawon, prydau ysgol am ddim, maint dosbarthiadau, lefelau cyrhaeddiad addysgol a lefelau absenoldeb.

Mae StatsCymru yn cyhoeddi data hanesyddol am ysgolion. Mae'r setiau data sydd ar gael yn cynnwys rhai am **staff addysgu**, **staff cymorth addysgu**, **disgyblion** ac **ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg**.

Mae Cyfrifiad 2011 yn cynnwys data ar **Lefel Uchaf y Cymhwyster** sydd gan bobl yn ôl yr etholaeth y maent yn byw ynddi, yn ogystal â manylion am **yr holl Gymwysterau sydd ganddynt**.

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr yn cyhoeddi data am gyfranogiad pobl ifanc mewn addysg uwch fesul etholaeth yn ei astudiaethau Participation in Local Areas (POLAR). Y ffigurau ar gyfer prosiect **POLAR3** yw'r rhai diweddaraf sydd ar gael, ac maent yn cynnwys pobl ifanc a drodd yn 18 oed rhwng 2005 a 2009.

## Tai

Mae Cyfrifiad 2011 yn darparu data etholaethau am dai. Caiff ystod o bynciau eu cwmpasu, gan gynnwys **Nifer yr Anheddau**, **Daliadaeth Cartrefi**, **Math o Adeilad**, **Nifer yr Ystafelloedd Gwely mewn Cartref**, a **Chyfradd Llenwi ar gyfer Ystafelloedd Gwely** (sy'n ystyried faint o deuluoedd mewn etholaeth sy'n byw mewn anheddau gorlawn neu anheddau sy'n cael eu tanddefnyddio).

## Y Gymraeg

Mae'r set data **Sgiliau Iaith Gymraeg** o Gyfrifiad 2011 yn darparu ffigurau pennawd ar nifer y bobl o fewn etholaeth sy'n gallu siarad, deall, darllen ac ysgrifennu Cymraeg.

Mae ystadegau etholaethol manylach fesul grwpiau oedran hefyd ar gael o set data **Proffil Iaith Gymraeg** Cyfrifiad 2011.

## Yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth

Mae'r rhan fwyaf o'r data am yr amgylchedd a thrafnidiaeth mewn ardaloedd lleol o Gymru ar gael gan awdurdodau lleol, ond mae Cyfrifiad 2011 yn cynnwys yr wybodaeth a ganlyn:

- Mae'r set data **Argaeledd Car neu Fan** yn cynnwys gwybodaeth ynghylch a oes gan gartrefi fynediad i gar neu fan, ac os felly, sawl un.
- Mae'r set data **Dull Teithio i'r Gwaith** yn cynnwys data am ddulliau arferol pobl o gyrraedd eu gweithle.

## Trosedd a Chyfiawnder

Mae'r rhan fwyaf o ddata am droseddu lleol wedi'i chyhoeddi ar sail ardal heddlu neu ardal awdurdod lleol. Un ffynhonnell ddata cymharol newydd yw gwefan **Police.uk**. Mae arni ddata am droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol fesul stryd sy'n dyddio yn ôl i fis Rhagfyr 2010.

## Etholiadau ac etholwyr

Mae **Canlyniadau Etholiad Cynulliad 2011** y Gwasanaeth Ymchwil yn rhoi dadansoddiad o ganlyniadau Etholiad Cynulliad 2011, ac mae'n cynnwys gwybodaeth am ganlyniadau, cyfran y bleidlais, newid yng nghyfran y bleidlais, mwyafrifoedd a nifer y bobl a bleidleisiodd ym mhob etholaeth.

Mae **Canlyniadau Etholiad Cyffredinol 2010** y Gwasanaeth Ymchwil yn rhoi dadansoddiad o ganlyniadau Etholiad Cyffredinol 2010, ac mae'n cynnwys gwybodaeth am ganlyniadau, cyfran y bleidlais, newid yng nghyfran y bleidlais, mwyafrifoedd a nifer y bobl a bleidleisiodd ym mhob etholaeth.

Mae canlyniadau etholiadau blaenorol Cynulliad Cenedlaethol Cymru fesul etholaeth ar gael ar wefan y Cynulliad. Mae'r rhain ar gael ar gyfer etholiadau **1999**, **2003** a **2007**.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ystadegau ar nifer yr **Etholwyr yn ôl Etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**. Oherwydd y gwahaniaeth yng nghymhwysedd pleidleiswyr, ceir hefyd ystadegau ar wahân ar gyfer Etholiadau Cyffredinol. Cyhoeddir y rhain gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, mewn datganiadau **Electoral Statistics for UK**.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am ffynonellau ystadegau etholaethau, cysylltwch â **Gareth Thomas** (garethdavid.thomas@cymru.gov.uk) neu **Helen Jones** (helen.jones@cymru.gov.uk) yn y Gwasanaeth Ymchwil.

**Gweler hefyd:**

- Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **Sources of statistics: data for parliamentary constituency areas**

Gellir gweld ein **hystod lawn o gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: **cynulliadcymru.org/bus-home/research.htm**

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: **@YmchwilCCC**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon at: **y Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon drwy'r e-bost at **research.service@cymru.gov.uk.**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Nodyn Ymchwil hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd.

**Rhif ymholiad: 13/2101**